# Cabledd

Mae cariad at Broffwydi Allah (Duw), megis Adda, Noa, Abraham, Moses, Iesu a Mohammad (tangnefedd iddynt oll), yn rhan annatod o ffydd a dysgeidiaeth Fwslimaidd. Mae sarhau neu amharchu unrhyw un o Broffwydi Allah (Duw) yn anweddus ac yn gableddus yn ôl dysgeidiaeth Fwslimaidd. Oherwydd parchedigaeth o'r fath, mae clywed neu weld sarhad ac amarch tuag at unrhyw un o'r Proffwydi yn beth anodd i Fwslim ei oddef. Er hynny, mewn amgylchiadau lle mynegir barn gableddus, rhaid i bobl beidio â chymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol fel ffordd o fynegi ffieidd-dod. Dywed y Quran:

***'A pheidiwch â lledaenu drygioni ar y ddaear ar ôl ei gywiro..' (Quran, 7:56)***

A ***hefyd 'Gweision Arglwydd Trugaredd yw'r rheini sy'n rhodio'r ddaear yn ostyngedig, a phan fydd pobl anwybodus yn eu cyfarch, byddant yn ateb gyda geiriau tangnefeddus.' (Quran, 25:63)***

Dylai pobl geisio dangos cwrteisi a pharch tuag at ei gilydd, yn enwedig mewn gwlad amlddiwylliannol Fel Cymru/y Deyrnas Unedig, lle mae cyd barch a goddefgarwch yn hollbwysig i Fwslimiaid yn ogystal â phobl nad ydynt yn Fwslimiaid.

# Ymateb i
# Anghyfiawnder a Gorthrwm

Mae'n ymateb naturiol i bobl deimlo digalondid, tristwch a hyd yn oed ffieidd-dod llwyr tuag at orthrwm a dioddefaint pobl, p'un ai yn y wlad hon neu dramor. Nid dim ond ar gyfer pobl o'r un ffydd, diwylliant neu ethnigrwydd y byddwn yn teimlo fel hyn, ond i bawb. Crëwyd pob bod dynol gan Allah (Duw) a dylid eu trin a'u parchu yn unol â hynny. Mae'r Proffwyd (tangnefedd iddo) yn tystio i hyn. Dywed Yntau:

'Byddwch drugarog i bobloedd y Ddaear, bydd Allah (Duw) yn drugarog i chi.' (Sunan at-Tirmidhi)

Mewn dywediad arall, dywedodd y Proffwyd Mohammad (tangnefedd iddo):

***'Gwaharddodd Allah orthrwm i'w Hun, ac felly gorchmynnodd y ddynoliaeth i beidio â gorthrymu ei gilydd'.*** (Sahih Muslim)

Mae'r Deyrnas Unedig, sy'n seiliedig ar egwyddorion democrataidd, yn rhoi'r cyfle i'w holl ddinasyddion fynegi eu barn a'u safbwyntiau mewn ffordd sy'n briodol i'r gymdeithas. Drwy wneud hyn, gall pawb gydweithio ac uno i fynegi eu gwrthwynebiad i anghyfiawnder a gorthrwm, lle bynnag y bo.

Datblygwyd gan grŵp o ysgolheigion ac imamau sy'n cynrychioli'r mosgiau canlynol, a chymeradwywyd gan gymunedau a sefydliadau Mwslimaidd Caerdydd a rhestr o fosgiau.

**CANOLFAN AL-IKHLAS**
FFÔN: 07565 513526

**AL-MANAR**
FFÔN: 029 2022 6607

**CANOLFAN GYMUNEDOL FWSLIMAIDD DARUL ISRA**
FFÔN: 029 2034 4073

**CANOLFAN DDIWYLLIANNOL FWSLIMAIDD GRANGETOWN**
FFÔN: 029 2023 9166

**MOSG A CHANOLFAN ADDYSG ISLAMAIDD JALALIA**
FFÔN: 029 2022 1309

**MOSG MADINA**
FFÔN: 029 2066 7256

**MASJID-E-BILAL**
FFÔN: 029 2039 7640

**MASJID-E-NOOR**
FFÔN: 029 2049 8435

**MASJID-E-OMAR**
FFÔN: 029 2048 8454

**CANOLFAN DDIWYLLIANNOL ISLAMAIDD GLAN-YR-FON**
FFÔN: 029 2022 1309

**MOSG SHAH JALAL**
FFÔN: 029 2048 0217

**CANOLFAN ISLAMAIDD DE CYMRU**
FFÔN: 029 2046 0243

Dyluniwyd gan Zaffdesign@gmail.com

GADEWCH I NI **UNO**
I **FYNEGI** EIN GWRTHWYNEBIAD
I **ANGHYFIAWNDER, GORTHRWM**
A **THRAIS,** LLE BYNNAG
Y BO

# BETH Y MAE ISLAM YN EI DDWEUD MEWN GWIRIONEDD...

**Y PYNCIAU YR YMDRINNIR Â HWY**

BETH YW ISLAM?
UFUDDHAU I GYFRAITH GWLAD
CYMEDROLDEB NID EITHAFIAETH
CABLEDD
YMATEB I ANGHYFIAWNDER & A GORTHRWM

## Beth yw **Islam?**

Mae Islam yn grefydd fyd-eang gyda dros 1.6 biliwn o ddilynwyr y ffydd ym mhedwar ban byd. Mae'n seiliedig ar y Quran Sanctaidd a dysgeidiaeth y Proffwyd Muhammad (tangnefedd iddo), a elwir yn aml yn Hadith neu y Sunnah.

Ystyr y gair Islam yw 'tangnefedd drwy ildio i Ewyllys Allah (Duw)'. Mae hefyd yn golygu byw mewn heddwch â'r Creawdwr, a bod mewn heddwch â'ch hunan, y gymdeithas a'r amgylchedd. Mae Islam yn ffordd o fyw gyflawn, lle disgwylir i Fwslimiaid fyw mewn heddwch a chytgord, a chydag ymddygiad moesol da. Dywedodd y Proffwyd Muhammad (tangnefedd iddo):

***'Fe'm hanfonwyd i berffeithio moesau da'.***
(Musnad Ahmad, Muwatta' Malik)

Dylai Mwslimiaid osod esiampl dda, drwy wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymdeithas yn ogystal â hybu cyfiawnder cymdeithasol.

## Ufuddhau i **gyfraith gwlad**

Nod cyfreithiau a deddfau unrhyw wlad yw diogelu dinasyddion y wlad honno a bod o fudd iddynt, yn ogystal â gosod strwythur ar gyfer llywodraethu. P'un a ydynt yn arddel crefydd neu beidio, mae'n ofynnol i drigolion gwlad ufuddhau i gyfreithiau'r wlad. Mae hyn yn cynnwys Mwslimiaid, a ddylai ufuddhau i gyfraith gwlad, ar yr amod nad yw'r gyfraith yn eu gorchymyn i gyflawni gweithredoedd sy'n groes i orchmynion Islam. Dywedodd y Proffwyd Muhammad (tangnefedd iddo):-

***"Mae'n ofynnol i Fwslim wrando ar y llywodraethwr ac ufuddhau iddo, oni bai y gorchmynnir iddo gyflawni pechod. Os gorchmynnir iddo gyflawni pechod, yna ni ddylai ufuddhau."*** *(Sahih Al-Bukhari)*

Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i holl ddinasyddion y Deyrnas Unedig osgoi gweithgareddau troseddol ac yn hytrach defnyddio dulliau cyfreithiol a gwleidyddol i wella'r gymdeithas. Rhydd i bawb sy'n arddel pob crefydd fyw eu bywydau yn unol â dysgeidiaeth eu crefydd, a gallant ddefnyddio dulliau cyfathrebu i fynegi barn yn hytrach na throi at ddicter, apathi, gwangalondid neu weithgarwch troseddol.

## Cymedroldeb **Nid Eithafiaeth**

Gellir diffinio terfysgaeth fel cyflawni gweithredoedd sy'n achosi ofn neu drais â chymhellion gwleidyddol neu grefyddol yn erbyn pobl ddiniwed.

Ers canrifoedd, cyflawnwyd amryw weithredoedd terfysgaidd mewn rhannau gwahanol o'r byd am resymau gwleidyddol neu grefyddol. Dylai pawb weithio tuag at sicrhau heddwch a goddefgarwch, tra dylai pawb gondemnio holl weddau hyll eithafiaeth a therfysgaeth yn agored. Dylem uno a datgan yn unfrydol na ddylid cyflawni'r echryslonderau hyn yn ein henw ni. Mae Allah yn dysgu'r canlynol i ni yn y Quran:

***'Chi (Mwslimiaid) yw'r genedl orau. Dylech weithredu er lles y ddynoliaeth, er mwyn annog daioni ac atal drygioni...'*** (Quran, 3: 110)

## Cymedroldeb **Nid Eithafiaeth** *(parhad)*

Drygioni yw'r unig ddisgrifiad ar gyfer pob math o derfysgaeth ac maent yn groes i'n ddynoliaeth gyffredin. Dywed y Quran "Bobloedd ddaear, Rydych yn tarddu o un dyn ac un menyw, a chawsoch eich creu yn hiliau a llwythau er mwyn i chi ddod i adnabod eich gilydd. Ym marn Duw, y rhai mwyaf anrhydeddus ohonoch yw'r rheini sydd fwyaf ystyriol Ohono Ef: Mae Duw yn Holl Wybodus ac yn Holl Ymwybodol." (Quran, 49:13)

Mae gweithredoedd o drais diwahaniaeth a defnyddio terfysg i gyflawni amcanion gwleidyddol wedi'u gwahardd yn Islam, ac fel Mwslimiaid, gorchmynnir i ni barchu sancteiddrwydd pob bywyd dynol. Dywed Allah yn y Quran Sanctaidd:

**'Pwy bynnag a laddo yn anghyfiawn; bydd fel petai wedi lladd y ddynoliaeth gyfan, a phwy bynnag a achuba fywyd; bydd fel petai wedi achub y ddynoliaeth gyfan.'**
*(Quran, 5:32)*

Cymaint yw parch Islam at sancteiddrwydd bywyd, hyd yn oed mewn adegau o ryfel pan fydd arweinydd gwlad Fwslimaidd yn anfon ei filwyr i ymladd, mae Allah wedi gosod rheolau diamwys o ran hynny. Er enghraifft, gwaherddir lladd menywod neu blant, yr henoed neu arweinwyr crefyddol neu unrhyw berson nad yw'n cario arfau neu nad yw'n cyflawni gweithred ymosodol. Gwaherddir milwyr Mwslimaidd rhag cwympo coed, gwenwyno'r cyflenwad dŵr na difrodi mannau addoli.

Mae rhwymedigaeth ar Fwslimiaid i atal niwed mewn cymdeithas, hyd yn os mai Mwslim yw'r un sy'n achosi'r niwed. Dywedodd y Proffwyd Muhammad (tangnefedd iddo):

'helpwch eich brawd, p'un a yw'n orthrymwr neu'n orthrymedig.' Gofynnodd y bobl 'O negesydd Allah! Bydd yn iawn i'w helpu os yw'n orthrymedig, ond sut y dylem ei helpu os gorthrymwr ydyw?' Atebodd y Proffwyd (tangnefedd iddo):

***'Drwy ei atal rhag gorthrymu eraill.'***
*(Sahih Al-Bukhari)*